Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

PAPA CYMRU GYFAN

PROTOCOL

LLURGUNIAD ORGANAU

RHYWIOL MERCHED

2005

Dyddiad Adolygu 2007

Cymerwyd y Protocol hwn o brotocol PAPA Caerdydd 2004.

Mae Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan am gydnabod gwaith PAPA Caerdydd a diolch iddynt am roi caniatâd ar gyfer defnyddio eu protocol.

Cynnwys

		Tudalennau
1.	Protocol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	4–10
1.1	Datganiad Cyfle Cyfartal	4
2.	Egwyddorion	4
3.	Deddfwriaeth	4
4.	Diffiniad	6
5.	Canlyniadau Llurguniad Organau Rhywiol Merched	7
6.	Arwyddion a Dangosyddion	7
7.	Gweithdrefnau a Chanllawiau Arfer	9
8.	Rhannu Gwybodaeth	11
9.	Arweiniad Proffesiynol ar Lurguniad Organau Rhywiol Merched i Weithwyr Proffesiynol Iechyd	15
10.	Arfer Da i Staff sy'n Gweithio mewn Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol	16
11.	Arweiniad Arfer Da: Rôl yr Heddlu	17
12.	Arweiniad Arfer Da: Rôl y Sector Gwirfoddol	18
13.	Arweiniad Arfer Da i Staff sy'n Gweithio mewn Awdurdodau Addysg	19
14.	Cyfeiriadau	21

1. PROTOCOL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

1.1 DATGANIAD CYFLE CYFARTAL

Mae'r protocol hwn yn effeithio ar grŵp o bobl ifanc sy'n arbennig o ddiamddiffyn. Mae angen seilio unrhyw benderfyniadau neu gynlluniau ar gyfer y plant/pobl ifanc hyn ar asesiadau o ansawdd da a bod yn ystyriol i faterion hil, diwylliant, rhyw, crefydd a rhywioldeb, er mwyn peidio â gwarthnodi'r plentyn na'r gymuned sy'n cyflawni'r arfer hwnnw.

2. EGWYDDORION

2.1.0 Mae Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn anghyfreithlon ac fe'i gwaherddir dan **Ddeddf Llurguniad Organau Rhywiol Merched 2003.**

2.1.1 Cydnabyddir bod rhai teuluoedd yn ystyried Llurguniad Organau Rhywiol Merched fel gweithred o gariad yn hytrach na chreulondeb, ond mae Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn achosi niwed sylweddol yn y tymor byr a hir ac yn gyfwerth â chamdriniaeth gorfforol ac emosiynol i blant.

2.1.2 Mae'n rhaid ategu'r protocol gan wasanaethau hygyrch, derbyniol a sensitif ym maes Iechyd, Addysg, yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol.

2.1.3 Dylai pob asiantaeth weithio mewn partneriaeth ag aelodau cymunedau lleol i roi'r grym i unigolion ddatblygu rhwydweithiau cefnogi a rhaglenni addysg.

2.1.4 Bydd Hawliau'r Plentyn fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y CU (1989) yn ategu'r protocol hwn.

3. DEDDFWRIAETH

3.1.1 Mae deddfwriaeth yn erbyn Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn y DU yn cynnwys safonau rhyngwladol a deddfwriaeth genedlaethol.

3.1.2 Mae dau gonfensiwn rhyngwladol, sy'n cynnwys erthyglau, y gellir eu cymhwyso i Lurguniad Organau Rhywiol Merched.
Dan y safonau hyn mae'r gwladwriaethau llofnodol, gan gynnwys y DU, dan rwymedigaeth i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

3.1.3 Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ar 16 Rhagfyr 1991, oedd yr offeryn gorfodol cyntaf i fynd i'r afael yn benodol ag arferion traddodiadol niweidiol fel trosedd iawnderau dynol.
Mae'n ofynnol yn benodol i Lywodraethau gymryd pob cam effeithiol a phriodol gyda'r bwriad o ddileu arferion traddodiadol sy'n niweidiol i iechyd plant.

3.1.4 Mae Confensiwn y CU ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, a ddaeth i rym ym 1981, yn cydnabod Llurguniad Organau Rhywiol Merched fel math o drais corfforol rhyw-seiliedig yn erbyn menywod. Mae'n galw ar y Llywodraethau llofnodol i gymryd camau priodol ac effeithiol gyda'r bwriad o ddileu'r arfer, gan gynnwys cyflwyno strategaethau gofal iechyd ac addysg priodol.

3.1.5 Cyfnerthwyd y confensiynau hyn gan ddwy gynhadledd y byd ddiweddar:

Crybwyllodd a chondemniodd y **Gynhadledd Ryngwladol ar Boblogaeth a Datblygiad** (ICPD, Cairo, Medi 1994) Lurguniad Organau Rhywiol Merched yn benodol mewn sawl un o'i herthyglau.

Condemniodd **Cynhadledd y Byd ar Fenywod** (Beijing 1995) Lurguniad Organau Rhywiol Merched hefyd a galwodd ar Lywodraethau i gefnogi rhaglenni i'w ddileu.

3.2 Deddfwriaeth Genedlaethol

3.2.1 Yn y DU, mae pob math o Lurguniad Organau Rhywiol Merched yn anghyfreithlon dan **Ddeddf Llurguniad Organau Rhywiol Merched 2003.**

Mae'r Ddeddf newydd hon yn disodli'r Ddeddf Gwahardd Enwaedu Merched 1985 flaenorol. Cyflwynodd y drosedd newydd o fynd â phlentyn allan o'r DU at ddiben Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

Ac eithrio llawdriniaeth angenrheidiol gan feddygon cymeradwy, mae person yn euog o drosedd os yw'n torri, yn gwaëgu neu'n llurgunio fel arall y cyfan neu ran o weflau mwyaf, gweflau lleiaf neu glitoris merch.

Mae troseddau eraill a ddisgrifir yn y Ddeddf yn cynnwys:

- Cynorthwyo merch i lurgunio ei horganau rhywiol ei hun
- Cynorthwyo person nad yw'n dod o'r DU i lurgunio organau rhywiol merch dramor

Trosedd yw Llurgunio Organau Rhywiol Merched, sy'n estyn i weithredoedd a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
Bydd unrhyw berson a ddyfernir yn euog o drosedd dan y Ddeddf yn agored i ddirwy neu garchariad am hyd at 14 blynedd, neu'r ddau.

3.2.2 Cam-drin plant yw Llurguniad Organau Rhywiol Merched. Mae'n anghyfreithlon. Fe'i cyflawnir ar blentyn nad yw'n gallu gwrthwynebu ac na ellir barnu ei bod yn rhoi unrhyw fath o ganiatâd i'r hyn sydd yn weithred anghyfreithlon.

Yn ôl **Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2000)**, os oes gan Awdurdod Lleol reswm i gredu bod plentyn yn debygol o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i Lurguniad Organau Rhywiol Merched, fe ddylai ystyried i ba raddau y dylai ddefnyddio ei bwerau ymchwiliol dan Adran 47 Deddf Plant 1989.

Dan **Ddeddf Plant 1989,** gall Awdurdodau Lleol gyflwyno cais i'r Llysoedd am Orchmynion amrywiol i atal mynd â phlentyn dramor am lurguniad.

4. DIFFINIAD

4.1.1 Arfer traddodiadol yw Llurguniad Organau Rhywiol Merched, a adwaenir weithiau fel Enwaedu Merched, sy'n digwydd mewn tair prif ffordd:

Math 1 – Enwaedu (Sunna)
Dyma'r ffurf leiaf difrifol o Lurguniad Organau Rhywiol Merched ac mae'n cynnwys tynnu cwfl y clitoris gan gadw'r clitoris ei hun.
Adwaenir y fath hon o lawdriniaeth hefyd fel Sunna, sy'n golygu 'traddodiad' yn Arabeg.

Math 2 – Torri (Clitoridectomi)
Mae hyn yn cynnwys tynnu rhan neu'r cyfan o'r clitoris ynghyd â rhan neu'r cyfan o'r gweflau lleiaf (gweflau bach sy'n gorchuddio ac yn diogelu agoriad y wain a'r agoriad wrinol). Ar ôl y broses wella, mae meinwe greithiol fawr yn ffurfio i orchuddio rhan uchaf y fwlfa.

Math 3 – Gwaëgu (a adwaenir hefyd fel Enwaedu Pharaonig)
Dyma'r ffurf ddifrifolaf ar Lurguniad Organau Rhywiol Merched. Mae'r term 'gwaëgu' yn deillio o'r enw a roddwyd i'r arfer Rhufeinig o fachu 'ffibwla' neu 'glasb' trwy weflau mawr organau rhywiol eu gwragedd er mwyn eu hatal rhag cael cyfathrach rywiol anghyfreithlon.
Mae gwaëgu yn cynnwys tynnu'r clitoris, y cyfan o'r gweflau lleiaf a rhannau mewnol y gweflau mwyaf (gweflau allanol yr organau rhywiol, sy'n iro'r tu mewn i'r plyg croen i atal dolur). Yna mae dwy ochr y fwlfa yn cael eu gwnïo at ei gilydd gyda sidan, edau coludd neu ddraen gan adael agoriad bach iawn yn unig i ganiatáu ar gyfer llif wrin neu fislifol.

4.1.2 Math 4 – Annosbarthedig
Mae hyn yn cynnwys pob math arall o lawdriniaeth ar organau rhywiol merched gan gynnwys pigo, tyllu ac ymestyn y fwlfa, endorri'r clitoris a/neu'r gweflau, serio trwy losgi'r clitoris a'r meinweoedd amgylchynol, endoriadau i wal y wain, crafu (toriadau *anqurya*) neu dorri (toriadau *gishiri*) y wain a'r meinweoedd amgylchynol.

5. CANLYNIADAU LLURGUNIAD ORGANAU RHYWIOL MERCHED

5.1.1 Mae'n ymddangos nad yw llawer o fenywod yn ymwybodol o'r berthynas rhwng Llurguniad Organau Rhywiol Merched a'i ganlyniadau iechyd; yn enwedig y cymhlethdodau sy'n effeithio ar gyfathrach rywiol a rhoi genedigaeth a allai ddigwydd sawl blwyddyn ar ôl y llurguniad.

Mae'n bwysig nodi bod y llurguniad, yn dibynnu ar ei raddau, weithiau'n gallu achosi gwaedlif marwol yn syth.

5.1.2 Goblygiadau iechyd tymor byr

a) poen difrifol a sioc ac weithiau marwolaeth
b) heintiau
c) ataliad dŵr
ch) anaf i feinweoedd cyfagos
d) torasgwrn neu afleoliad o ganlyniad i rwystro
dd) niwed i organau eraill

5.1.3 Goblygiadau iechyd tymor hir

a) niwed eithafol i'r system genhedlu
b) heintiau crothol, gweiniol a phelfig
c) anffrwythlondeb
ch) codennau
d) cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a rhoi genedigaeth
dd) niwed seicolegol; gan gynnwys nifer o broblemau iechyd meddwl a seicrywiol e.e. iselder, pryder, oerni rhywiol (BMA 2001)
e) trafferthion rhywiol
f) anawsterau gyda'r mislif
ff) anawsterau wrth basio dŵr
g) mwy o berygl o drosglwyddo HIV

6. ARWYDDION A DANGOSYDDION

6.1.1 Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o Lurguniad Organau Rhywiol Merched. Dyma rai dangosyddion o Lurguniad Organau Rhywiol Merched. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a dylai gweithwyr proffesiynol fod yn wyliadwrus bob amser:

- Maent yn dod ar draws plentyn sydd wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched.
- Maent yn ymwybodol bod plentyn a allai fod wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn dioddef problemau gyda'r bledren neu broblemau mislif difrifol, sy'n achosi absenoldeb mynych o'r ysgol.

- Maent yn clywed cyfeiriad at Lurguniad Organau Rhywiol Merched/Enwaedu mewn sgwrs, er enghraifft gallai plentyn ofyn am help gan athro/athrawes neu oedolyn arall.
- Bydd Bydwragedd ac Obstetregwyr yn ymwybodol pan fyddant yn trin menyw feichiog sydd wedi cael ei henwaedu. Gallai hyn achosi pryder am unrhyw blentyn benywaidd ganedig neu unrhyw ferched eraill yn y teulu.
- Mae'r teulu'n perthyn i gymuned y gwyddys ei bod yn arfer Llurguniad Organau Rhywiol Merched. Mae'n bosib y byddant yn arfer Llurguniad Organau Rhywiol Merched os yw hynafwragedd y teulu'n bresennol.

6.1.2 Rhesymau a roddir dros barhau i arfer Llurguniad Organau Rhywiol Merched

- Anrhydedd deuluol;
- Arfer a thraddodiad;
- Hylendid a glendid;
- Cadw gwyryfdod/diweirdeb;
- Derbyniad cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer priodi;
- Crefydd, trwy gredu ar gam ei fod yn ofyniad crefyddol;
- Ymdeimlad o berthyn i'r grŵp ac, i'r gwrthwyneb, ofn eithrio cymdeithasol.

7. GWEITHDREFNAU A CHANLLAWIAU ARFER

7.1.1 Dylid annog peidio ag arfer llurguniad organau rhywiol plant benywaidd a menywod ifanc trwy raglenni addysgol ac ataliol priodol.

7.1.2 Mae'n rhaid i staff sy'n gyfrifol am waith amddiffyn plant fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant ac unrhyw raglenni ataliol lleol sy'n bodoli.

7.1.3 Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn mewn perygl o ddioddef neu wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched arwain at gyfeiriad amddiffyn plant i'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu.

7.1.4 Mae Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn gosod plentyn mewn perygl o niwed arwyddocaol ac felly bydd yn cael ei ymchwilio (ar y cychwyn) dan Adran 47 Deddf Plant (1989) gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a thîm amddiffyn plant yr heddlu.

7.2 Cyfarfod Strategaeth

7.2.1 Ar ôl derbyn cyfeiriad mae'n rhaid galw **cyfarfod strategaeth** sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd a gwirfoddol. Mae'n rhaid ystyried cynnwys cynrychiolaeth ieithyddol, paediatrig, gwrth-hiliol a chyfreithiol briodol hefyd.

7.2.2 Yn gyntaf mae'n rhaid i'r cyfarfod strategaeth gadarnhau a yw'r rhieni neu'r plentyn wedi cael mynediad i wybodaeth am agweddau niweidiol Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

7.2.3. Os na, dylid cynnig rhaglenni addysgol/ataliol i'r rhieni/plentyn.

7.2.4. Mae'n rhaid defnyddio cyfieithydd ym mhob cyfweliad gyda'r teulu os nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Ni ddylai'r cyfieithydd fod yn berthynas deuluol. Mae'n rhaid i'r cyfieithydd fod yn fenyw.

7.2.5. Dylid gwneud pob ymdrech i weithio gyda'r rhieni ar sail wirfoddol i atal y gamdriniaeth. Dyletswydd y tîm ymchwiliol yw ystyried pob ffordd bosib o sicrhau cydweithrediad y rhieni. Fodd bynnag, lles y plentyn sydd bwysicaf bob amser.

7.2.6 Os na cheir cytundeb, y flaenoriaeth gyntaf yw amddiffyn y plentyn a dylid cymryd y camau cyfreithiol lleiaf ymwthiol i sicrhau diogelwch y plentyn.

7.2.7 Y prif ffocws yw atal y plentyn rhag dioddef unrhyw fath o Lurguniad Organau Rhywiol Merched, yn hytrach na'i symud o'r teulu.

7.3 Plant sydd mewn perygl ar hyn o bryd

7.3.1 Lle mae'n ymddangos bod y plentyn mewn perygl o lurguniad ar hyn o bryd ac ni all y rhieni warantu'n foddhaol na fyddant yn mynd ymlaen â'r broses, dylid ceisio Gorchymyn Diogelu Brys.

7.4 Os yw plentyn eisoes wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched

7.4.1 Os yw plentyn eisoes wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched ac mae hyn yn dod i sylw unrhyw weithiwr proffesiynol, dylid cyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, a dylid galw cyfarfod strategaeth i ystyried sut, ble a phryd y cyflawnwyd y weithdrefn a'i goblygiadau.

7.4.2. Dylid ystyried plentyn sydd wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched fel plentyn mewn angen a dylid cynnig gwasanaethau fel y bo'n briodol. Mae asesiad cyfannol gan gynnwys archwiliad o'r plentyn yn bwysig iawn. Dylid ystyried yr asesiad hwn ynghyd â gwasanaethau therapiwtig yn y cyfarfod strategaeth a'i gynnig ym mhob achos.

7.4.3 Mae'n rhaid ystyried y risg i blant benywaidd eraill yn y teulu yn ystod y cyfarfod strategaeth. Os yw rhieni plentyn yn benderfynol o anfon eu merch allan o'r wlad a bernir bod llurguniad yn debygol petai hi'n mynd, dylid ceisio cyngor cyfreithiol.

7.5 Os yw menyw eisoes wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched

7.5.1 Os yw menyw eisoes wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched a bod hyn yn dod i sylw unrhyw weithiwr proffesiynol, mae angen ystyried unrhyw oblygiadau amddiffyn plant e.e. ar gyfer chwiorydd iau, aelodau o'r teulu estynedig, a dylid cyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu os yw'n briodol.

7.5.2 Os yw'r fenyw yn fam i blentyn benywaidd neu os yw'n gofalu am blant benywaidd, dylid cyfeirio'r achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol dan y Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Fe fydd hyn yn helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o hysbysu'r rhieni am oblygiadau cyfreithiol a iechyd Llurguniad Organau Rhywiol Merched ac asesu'r risg bosib i blant benywaidd yn y teulu.

7.5.3 Dylid ystyried bod angen cynhadledd amddiffyn plant dim ond os oes materion amddiffyn plant heb eu datrys ar ôl cwblhau'r ymchwiliad a'r asesiad cychwynnol.

8. RHANNU GWYBODAETH

Dywedodd yr Arglwydd Carlile yn yr Adolygiad o Amddiffyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu Trin yn y GIG, "Peth Rhy Ddifrifol (2002)":

"Nid oes unrhyw beth yn Adroddiad Caldicott, Deddf Diogelu Data 1998 na Deddf Hawliau Dynol 1998 a ddylai atal cyfnewid gwybodaeth yn gyfiawnadwy ac yn gyfreithlon er mwyn amddiffyn plant neu ddatgelu neu atal Trosedd Ddifrifol."

8.1.1 Y Fframwaith Cyfreithiol

Gall gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant dim ond os ydynt yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried cyfraith gyhoeddus a statud bob amser cyn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol i bobl eraill.

Fel arfer, dylid datgelu gwybodaeth bersonol i drydydd parti (gan gynnwys asiantaethau eraill) dim ond gyda chaniatâd gwrthrych y wybodaeth honno. Lle bynnag y bo'n bosib, dylid sicrhau caniatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti.

Dan rai amgylchiadau, efallai na fydd caniatâd yn bosib nac yn ddymunol, ond mae diogelwch a lles y plentyn yn mynnu y dylid rhannu'r wybodaeth.

Y ffordd orau o sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol yw gweithio o fewn protocolau rhannu gwybodaeth a luniwyd yn ofalus rhwng yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, a cheisio cyngor cyfreithiol mewn achosion unigol lle y bo angen.

Gall gweithwyr proffesiynol iechyd rannu gwybodaeth am glaf gyda gweithiwr proffesiynol meddygol arall fel rhan o ddarparu gofal a thriniaeth i'r claf hwnnw. Dylid gwneud hyn yn unol â dyletswyddau cyfrinachedd cyfraith gyhoeddus, Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Dylid rhoi sylw arbennig i'r holl Egwyddorion Diogelu Data. Dylid ystyried unrhyw ddatgeliad ar sail achos unigol a'i gyfyngu i ddatgelu'r wybodaeth y mae angen ei datgelu ar gyfer gofal a thriniaeth feddygol y plentyn.

Fel mater o arfer, dylid ystyried ceisio caniatâd y rhiant ar ran y plentyn (lle nad yw'r plentyn yn Fraser gymwys), er na fydd angen caniatâd o'r fath bob amser petai'r datgeliad yn bygwth diogelwch y plentyn. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r amgylchiadau penodol.

8.1.2 Dyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gyhoeddus

Mae gwybodaeth bersonol am blant a theuluoedd sy'n cael ei chadw gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn destun dyletswydd cyfrinachedd cyfreithiol, ac ni ddylid ei datgelu fel arfer heb ganiatâd y gwrthrych. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu ar gyfer datgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu plentyn neu blant er lles y cyhoedd: hynny yw, gall lles y cyhoedd o ran amddiffyn plant wrthbwyso lles y cyhoedd o ran cynnal cyfrinachedd. Dylai'r datgeliad fod yn gyfiawnadwy ym mhob achos, yn unol â ffeithiau penodol yr achos, a dylid ceisio cyngor cyfreithiol os oes amheuaeth.

Mae gan blant yr hawl i'r un ddyletswydd cyfrinachedd ag oedolion, cyn belled â bod ganddynt, yn achos y rheiny dan 16 oed, y gallu i ddeall y dewisiadau a'r canlyniadau sy'n berthnasol i unrhyw driniaeth.
Dan amgylchiadau eithriadol, gellir credu bod plentyn sy'n ceisio cyngor, er enghraifft ar faterion rhywiol, yn cael ei ecsbloetio neu ei gam-drin. Mewn achosion o'r fath, gellir torri cyfrinachedd, yn dilyn trafodaeth â'r plentyn.

8.1.3 Deddf Diogelu Data

Dan Ddeddf Diogelu Data 1998 mae'n ofynnol i wybodaeth bersonol gael ei darganfod a'i phrosesu'n deg ac yn gyfreithlon; ei datgelu dan amgylchiadau priodol yn unig; bod yn gywir, yn berthnasol a heb ei chadw'n hirach nag sydd angen; a'i chadw'n ddiogel. Mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer datgelu heb ganiatâd y gwrthrych dan rai amgylchiadau, gan gynnwys at ddibenion atal neu ddatgelu trosedd, neu arestio neu erlyn troseddwyr, a lle y byddai methu â datgelu'n debygol o beryglu'r amcanion hynny mewn achos penodol (am arweiniad pellach gweler *Deddf Diogelu Data 1998 : diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion* (Adran Iechyd, 1998). Dylid ceisio cyngor cyfreithiol lle y bo'n briodol neu os oes amheuaeth.

8.1.4 Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Yn ôl Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:

1. Mae gan bawb yr hawl i dderbyn parch at ei fywyd teulu, ei gartref a'i ohebiaeth.
2. Ni fydd unrhyw ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus wrth arfer yr hawl hon ac eithrio hynny yn unol â'r gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch cenedlaethol, diogelwch cyhoeddus neu les economaidd y wlad, atal anhrefn neu droseddau, diogelu iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

Gallai datgelu gwybodaeth heb ganiatâd achosi dadl dan Erthygl 8.
Fodd bynnag, nid hawl ddiamod yw hon a bydd datgelu gwybodaeth i ddiogelu plant fel arfer ar gyfer diogelu iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill, ac ar gyfer atal anhrefn neu droseddau, felly dylid rhannu'r wybodaeth.

Dylai'r datgeliad fod yn briodol at y diben ac i'r graddau y mae eu hangen yn unig i gyflawni'r diben hwnnw. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol lle bynnag y bo'n briodol, neu os oes amheuaeth.

8.1.5 Yn ôl Adran 115 Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998:

Bydd gan unrhyw berson na fyddai ganddo'r pŵer i ddatgelu gwybodaeth i awdurdod perthnasol, heblaw am yr isadran hon, y pŵer i wneud hynny lle mae'r datgeliad yn angenrheidiol neu'n fuddiol at ddibenion unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf hon.

(Mae'r Ddeddf yn berthnasol i sefydliadau statudol ac, am fod Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn drosedd, mae'n nodi'n glir y gallu i rannu gwybodaeth/cyflwyno cyfeiriad amddiffyn plant heb ganiatâd.)

8.2 Arweiniad Proffesiynol

8.2.1 Meddygol

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) wedi cynhyrchu arweiniad cyffredinol o'r teitl *Confidentiality: Protecting and Providing Information (2000).* Mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau caniatâd claf ar gyfer datgelu gwybodaeth bersonol dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond mae'n nodi'n glir yn eu barn hwy y gellir rhyddhau gwybodaeth i drydydd parti - heb ganiatâd os oes angen - dan rai amgylchiadau. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

8.2.1.1 Plant a chleifion eraill y mae'n bosib nad ydynt yn gymwys i roi caniatâd

"Gall problemau godi os ydych o'r farn nad yw claf yn gallu rhoi caniatâd am driniaeth neu ddatgeliad oherwydd anaeddfedrwydd, salwch neu anallu meddyliol. Os yw cleifion o'r fath yn gofyn i chi beidio â datgelu gwybodaeth i drydydd parti, dylech geisio eu perswadio i ganiatáu i berson priodol ymwneud â'r ymgynghoriad. Os ydynt yn gwrthod ac rydych yn argyhoeddedig bod hyn yn hanfodol, er eu lles hwy, gallwch ddatgelu gwybodaeth berthnasol i berson neu awdurdod priodol. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i chi ddweud wrth y claf cyn datgelu unrhyw wybodaeth a, lle y bo'n briodol, cheisio ac ystyried barn eiriolwr neu ofalwr yn ofalus. Dylech ddogfennu'r camau a gymerwyd gennych i gael caniatâd yng nghofnod y claf ynghyd â'r rhesymau dros benderfynu datgelu gwybodaeth" (paragraff 38).

"Os ydych yn credu bod claf yn dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth gorfforol, rywiol neu emosiynol, ac ni all y claf roi caniatâd neu os yw'n gwrthod rhoi caniatâd am ddatgeliad, dylech roi gwybodaeth i berson cyfrifol priodol neu asiantaeth statudol, os ydych o'r farn bod y datgeliad er pennaf les y claf. Fel arfer dylech roi gwybod i'r claf eich bod yn bwriadu datgelu'r wybodaeth cyn gwneud hynny. Gall amgylchiadau o'r fath godi mewn perthynas â phlant lle y gallai fod angen rhannu pryderon am gamdriniaeth bosib gydag asiantaethau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol. Lle y bo'n briodol, dylech roi gwybod i'r rheiny â chyfrifoldeb rhieni am y datgeliad. Os ydych o'r farn, am

unrhyw reswm, nad yw datgelu er pennaf les y claf sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniad".

8.2.1.2 Datgelu er mwyn diogelu'r claf neu bobl eraill

"Gellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd lle y gallai methu â gwneud hynny olygu y gallai'r claf neu bobl eraill fod mewn perygl o farwolaeth neu niwed difrifol. Lle mae trydydd parti yn agored i risg mor ddifrifol y mae'n gwrthbwyso preifatrwydd y claf, dylech geisio caniatâd i ddatgelu lle y bo'n ymarferol. Os nad yw'n ymarferol, dylech ddatgelu'r wybodaeth yn ddi-oed i berson neu awdurdod priodol. Yn gyffredinol dylech roi gwybod i'r claf cyn datgelu'r wybodaeth" (paragraff 36).

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cadarnhau bod ei arweiniad ar ddatgelu gwybodaeth a allai gynorthwyo wrth atal neu ddatgelu camdriniaeth yn berthnasol i wybodaeth am drydydd parti (er enghraifft oedolion y mae perygl y gallant achosi niwed i blentyn), a phlant y gallant fod yn dioddef camdriniaeth.

8.2.2 Nyrsio

Yn ôl y **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**:

- Dylid datgelu gwybodaeth gyda chaniatâd y claf

Fodd bynnag, gellir datgelu gwybodaeth heb ganiatâd lle mae hynny:

- Er lles y cyhoedd (fel arfer lle mae datgelu'n hanfodol i ddiogelu'r claf neu rywun arall rhag perygl o niwed sylweddol)
- Yn ofynnol dan y gyfraith neu orchymyn llys

Mae arweiniad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi hefyd:

- *Lle mae mater Amddiffyn Plant mae'n rhaid i chi weithredu yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol bob amser*

9. ARWEINIAD PROFFESIYNOL AR LURGUNIAD ORGANAU RHYWIOL MERCHED I WEITHWYR PROFFESIYNOL IECHYD

Fel ymateb i'r angen cynyddol i weithwyr proffesiynol iechyd yn y DU fod yn ymwybodol o fater Llurguniad Organau Rhywiol Merched, cyhoeddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol arweiniad i nyrsys ym mis Mawrth 1994.

Ceisiodd ***Female Genital Mutilation: The Unspoken Issue*** gynyddu ymwybyddiaeth nyrsys o'r pwnc a rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt am y materion cysylltiedig. Y gobaith oedd ysgogi trafodaeth ac annog nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i ddatblygu ymatebion lleol i Lurguniad Organau Rhywiol Merched.

Ym mis Ionawr 1996 cymeradwyodd y Gymdeithas Feddygol Brydeinig (BMA) ***Guidance for Doctors Approached by Victims of Female Genital Mutilation***. Mae'r arweiniad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, rôl y meddyg, arweiniad ac argymhellion ar gyfer gweithredu.

Ym mis Mehefin 1997, cyhoeddodd y **Coleg Obstetregwyr a Gynaecolegwyr Brenhinol** ddatganiad yn condemnio pob math o Lurguniad Organau Rhywiol Merched, ac yn egluro'r diffiniad o waëgu a sefyllfa'r obstetregydd o ran adfer fwlfa menyw sydd wedi rhoi genedigaeth i faban yn naturiol yn dilyn gwaëgu blaenorol.

Ym mis Mehefin 1998, cyhoeddodd y **Coleg Bydwragedd Brenhinol** bapur safbwynt ar Lurguniad Organau Rhywiol Merched, gan roi gwybodaeth gefndir ac egluro rôl y fydwraig o ran gofalu am fenywod ac amddiffyn plant.

Mae'n bwysig nodi pan fydd Gweithiwr Proffesiynol Iechyd yn pryderu bod Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn debygol o ddigwydd neu wedi cael ei gyflawni, mae'n ddyletswydd i gyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol.

Ni ddylai Gweithwyr Proffesiynol Iechyd ymchwilio i'r mater hwn na delio ag ef yn unigol.

Mae cyngor a chefnogaeth ar gael o Feddygon a Nyrsys Penodol yr Ymddiriedolaeth a'r Meddygon a'r Nyrsys Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Cymru.

10. ARWEINIAD ARFER DA I STAFF SY'N GWEITHIO MEWN ADRANNAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Polisi

Os amheuir Llurguniad Organau Rhywiol Merched, bernir bod y plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol.

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn mewn perygl ar hyn o bryd o Lurguniad Organau Rhywiol Merched, neu wedi dioddef hynny, arwain at gyfeiriad amddiffyn plant. Mae Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn golygu bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol ac felly bydd yn cael ei ymchwilio (ar y cychwyn) dan Adran 47 Deddf Plant (1989) gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.

Os derbynnir cyfeiriad ynghylch un plentyn mewn teulu, mae'n rhaid ystyried a yw ei chwiorydd mewn perygl tebyg hefyd.

Dylid ystyried plant o deuluoedd eraill hefyd pan fydd pryderon yn cael eu nodi am achos neu gyflawnwr Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

Y Sefyllfa Gyfreithiol

Trosedd yw Llurguniad Organau Rhywiol Merched dan **Ddeddf Llurguniad Organau Rhywiol Merched 2003** (sy'n disodli Deddf Gwahardd Enwaedu Merched 1985). Mae'r drosedd hon yn arwain at ddedfryd o garchar am 5 mlynedd ar dditiad ar gyfer y person a gynhaliodd Llurguniad Organau Rhywiol Merched.
Gellir cyflwyno amddiffyniad am resymau meddygol, os cynhelir gan feddyg, oherwydd yr unig eithriad i'r Ddeddf yw ar sail gorfforol a iechyd meddwl benodol.
Ni dderbynnir arferion neu ddefodau diwylliannol fel amddiffyniad.

Mae'n drosedd hefyd dan y Ddeddf i drefnu, achosi, cynorthwyo neu annog Llurguniad Organau Rhywiol Merched ac ar dditiad fe all arwain at ddedfryd o garchar am bum mlynedd.

Mae'n drosedd hefyd bellach i fynd â phlentyn allan o'r DU at ddiben Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

Felly gall rhieni/gofalwyr gael eu herlyn dan y gyfraith hefyd.

11. ARWEINIAD ARFER DA: RÔL YR HEDDLU

Polisi

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn mewn perygl ar hyn o bryd o Lurguniad Organau Rhywiol Merched, neu wedi dioddef hynny, arwain at gyfeiriad amddiffyn plant. Mae Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn golygu bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol ac felly bydd yn cael ei ymchwilio (ar y cychwyn) dan Adran 47 Deddf Plant (1989) gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.

Os derbynnir cyfeiriad ynghylch un plentyn mewn teulu, mae'n rhaid ystyried a yw ei chwiorydd mewn perygl tebyg hefyd.

Dylid ystyried plant o deuluoedd eraill hefyd pan fydd pryderon yn cael eu nodi am achos neu gyflawnwr Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

12. ARWEINIAD ARFER DA: RÔL Y SECTOR GWIRFODDOL

Gellir cael cefnogaeth a chyngor gan sefydliadau arbenigol fel y:

* *Foundation for Women's Health, Research and Development*

sy'n cynnig:

- Cyfieithu/Dehongli
- Cefnogaeth Gynghori
- Rhaglenni Addysgol
- Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd

Os amheuir bod Llurguniad Organau Rhywiol Merched wedi digwydd neu ar fin digwydd dylid trafod y mater gyda Rheolwr Llinell y person a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yna dylid cyfeirio'r achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliad yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant PAPA Cymru Gyfan 2002 a diweddariadau.

Ni ddylid caniatáu i unrhyw angen am geisio cyngor oedi cyfeiriad amddiffyn plant.

Dylai hyfforddiant ac addysg am Lurguniad Organau Rhywiol Merched fod ar gael i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

13. ARWEINIAD ARFER DA I STAFF SY'N GWEITHIO MEWN AWDURDODAU ADDYSG

Polisi

Os amheuir Llurguniad Organau Rhywiol Merched, bernir bod y plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol.

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn mewn perygl ar hyn o bryd o Lurguniad Organau Rhywiol Merched, neu wedi dioddef hynny, arwain at gyfeiriad amddiffyn plant. Mae Llurguniad Organau Rhywiol Merched yn golygu bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol ac felly bydd yn cael ei ymchwilio (ar y cychwyn) dan Adran 47 Deddf Plant (1989) gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.

Os derbynnir cyfeiriad ynghylch un plentyn mewn teulu, mae'n rhaid ystyried a yw ei chwiorydd mewn perygl tebyg hefyd.

Dylid ystyried plant o deuluoedd eraill hefyd pan fydd pryderon yn cael eu nodi am achos neu gyflawnwr Llurguniad Organau Rhywiol Merched.

Arweiniad Arfer Da

Dylid ystyried yr arweiniad hwn ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant PAPA Cymru Gyfan a llawlyfrau amddiffyn plant yr ysgol.

Arwyddion/ Dangosyddion

Mae'n bosib y bydd yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant mewn ysgolion yn dod yn ymwybodol o arfer Llurguniad Organau Rhywiol Merched.
Mae rhai staff mewn sefyllfa arbennig o dda i ddatgelu perygl Llurguniad Organau Rhywiol Merched, yn enwedig athrawon mewn ysgolion cynradd a nyrsys ysgol.

Dylid rhybuddio'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion mewn ardaloedd lle mae cymunedau y gwyddys eu bod yn arfer Llurguniad Organau Rhywiol Merched am y posibilrwydd o'r arfer ym mhoblogaeth yr ysgol.

Mae arwyddion y gallai Llurguniad Organau Rhywiol Merched fod ar fin digwydd yn cynnwys:

- Mae'r teulu'n perthyn i gymuned y gwyddys ei bod yn arfer Llurguniad Organau Rhywiol Merched e.e. gwledydd Somalïaidd, Swdanaidd ac is-Saharaidd eraill.
- Gallai plentyn siarad am wyliau hir i'w gwlad wreiddiol ac fe allai gyfaddef i athro/athrawes, nyrs ysgol neu swyddog lles, cynorthwyydd athrawon neu helpwr mewn oed ei bod hi'n mynd i gael 'gweithred arbennig' neu fynychu (achlysur arbennig).

- Gallai sgwrs gyda phlentyn gyfeirio at Lurguniad Organau Rhywiol Merched/ enwaedu.
- Gallai rhiant ddweud eu bod hwy neu berthynas yn mynd â'r plentyn allan o'r wlad am gyfnod hir.

Mae arwyddion y gallai Llurguniad Organau Rhywiol Merched eisoes fod wedi digwydd yn cynnwys:

- Gallai plentyn dreulio cyfnodau hir allan o'r dosbarth yn ystod y dydd gyda phroblemau'r bledren neu fislifol.
- Gallai fod absenoldebau hir o'r ysgol oherwydd problemau'r bledren neu fislifol.
- Gallai absenoldeb hir o'r ysgol gyda newidiadau amlwg o ran ymddygiad ar ôl i'r ferch ddychwelyd fod yn arwydd bod merch wedi dioddef Llurguniad Organau Rhywiol Merched.
- Cyfeiriad at y nyrs ysgol sy'n arwain at geisio cyngor meddygol pellach sy'n awgrymu bod Llurguniad Organau Rhywiol Merched wedi digwydd.

Os amheuir bod Llurguniad Organau Rhywiol Merched wedi digwydd neu ar fin digwydd, dylid cyfeirio'r mater at yr Aelod Dynodedig o Staff ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol. Gellir ceisio cyngor ar yr adeg hon o'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant (Gwasanaeth Ysgolion), Swyddog Lles Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol iechyd Penodol / Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant, Nyrs Ysgol, Paediatregydd Cymunedol neu Feddyg Teulu.

Yna dylid cyfeirio'r achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliad yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant PAPA Cymru Gyfan 2002 a diweddariadau.

Ni ddylid caniatáu i unrhyw angen am geisio cyngor oedi cyfeiriad amddiffyn plant.

14. CYFEIRIADAU

1. *Female Circumcision (Female Genital Mutilation).* Coleg Obstetregwyr a Gynaecolegwyr Brenhinol, Mehefin 1997.

2. *Female Genital Mutilation: Caring for patients and Child Protection.* Arweiniad o'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig (BMA) (2001)

3. *Female Genital Mutilation: The Unspoken Issue*. Coleg Nyrsio Brenhinol 1994.

4. *Guidance for Doctors Approached by Victims of Female Genital Mutilation.* BMA, 1996.

5. Deddf Hawliau Dynol (1998)

6. *Position Paper: Female Genital Mutilation (Female Circumcision).* Coleg Bydwragedd Brenhinol, Rhif 21, Mehefin 1998.

7. Deddf Llurguniad Organau Rhywiol Merched 2003 (disodli Deddf Gwahardd Enwaedu Merched 1985).

8. Deddf Plant (1989)

9. Deddf Cyfiawnder Troseddol (Terfysgaeth a Chynllwyn) 1988.

10. Webb E., Hartley B. (1994) *Female Genital Mutilation: a dilemma in child protection. Archives of the Diseases of Childhood 70: 441-444*

11. Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant – Arweiniad i waith rhyngasiantaeth i ddiogelu a hybu Lles Plant. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000)

12. Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (1989)